
Dŵr Cymru
Welsh Water


# Tymheredd Dŵr: Cymharu Gwahanol Fannau

Mae llawer o bobl yn cael eu temtio i fynd i nofio mewn cronfeydd dŵr i gadw'n oer ar ddiwrnod poeth. Mae hyn yn beryglus iawn am sawl rheswm; y prif reswm yw bod y dŵr yn ddwfn iawn ac yn oer iawn.

Yr her i chi yw paratoi gwahanol ficeri o ddŵr i'r tymereddau isod a sylwi ar y gwahaniaeth yn y tymheredd.





**Tymheredd Bath**





**Tymheredd Cronfa Ddŵr**





**Tymheredd y Corff**




**Tymheredd y Môr, Caerdydd (cyfartaledd blynyddol)**




**Y Môr oddi ar Ynysoedd Baleares (cyfartaledd blynyddol)**




**Pwll Nofio Dan Do**

Mesurwch y tymheredd gan ddefnyddio thermomedr. Rhowch eich bys yn y dŵr PAN FYDDWCH YN SIŴR NAD YW'N RHY BOETH. Beth sy'n eich taro? Ydych chi'n gallu dyfalu p'un yw p'un?

## Her Dŵr Oer

**Bydd arnoch angen:**
30 cownter o wahanol liwiau mewn setiau o 5. Dwy ddysgl. Stopwatsh. Dŵr cynnes a dŵr oer. Thermomedr.

**1.** Cymysgwch y cownteri lliw ar fwrdd fflat
**2.** Paratowch ddysgl o ddŵr 10°C (tymheredd cronfa ddŵr)
**3.** Rhowch y ddwy law yn y ddysgl am 2 funud
**4.** Mae gennych 1 funud i roi'r cownteri mewn tyrau o 5 o'r un lliw .... EWCH!
**5.** Cofnodwch eich canlyniadau a gwneud yr un peth â dŵr sy'n 37°C (tymheredd y corff)

**Beth oedd hynny'n ei ddangos i chi? A allech chi wneud yr arbrawf yn well? Sut?**

dwrcymru.com